Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Cydnerthedd Corfforaethol – Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2275A2021-22

Paratowyd y ddogfen yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Adran 40 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn gydnerth, ond mae angen iddo wneud penderfyniadau pwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi dangos ei gydnerthedd tymor byr, ond mae angen iddo wneud penderfyniadau pwysig er mwyn parhau i fod yn gydnerth yn y dyfodol 6

Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau yn dda, ond mae angen mynd i'r afael â risgiau o ran capasiti er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol 6

Mae gan yr Awdurdod systemau llywodraethu priodol ond nid yw gwaith craffu ar benderfyniadau a dwyn swyddogion i gyfrif yn rhoi digon o sicrwydd bob amser bod yr holl risgiau corfforaethol mawr yn derbyn sylw 10

Mae gan yr Awdurdod weithlu cydnerth ac mae wedi ymdrin yn dda â heriau uniongyrchol, ond ceir risgiau tymor canolig y mae angen eu rheoli er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gydnerth 12

Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'r modd y mae'n integreiddio ac yn gwneud y defnydd gorau o asedau, ond mae rhai heriau hirsefydlog wrth gydweithredu ar ystadau 14

Mae gan yr Awdurdod gynlluniau parhad busnes profedig sydd wedi helpu i gynnal ei gydnerthedd corfforaethol a gweithredol wrth ymateb i'r pandemig 16

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg 18

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd a pham

1 Mae uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol presennol ar gyfer awdurdodau tân ac achub yn galw am: 'fynd ati'n barhaus i wneud yr ymdrech mwyaf posibl i adnabod a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, i gynnal safonau llywodraethu uchel, ac i roi cyfrif mewn modd tryloyw am y modd y cyflenwir gwasanaethau'. Mae **Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub** yn disgrifio'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan yr awdurdodau tân ac achub ac yn gosod disgwyliadau ar gyfer gwelliant parhaus, effeithlonrwydd ac arloesedd.

2 Ar gyfer 2020-21, gwnaethom gynnal yr adolygiad ym mhob awdurdod tân ac achub yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch pa mor dda y mae pob Awdurdod yn mynd i'r afael â'r heriau ariannol a'r heriau o ran capasiti sy'n wynebu cyrff cyhoeddus. Galluogodd yr adolygiad ni i ddarparu sylwebaeth ynglŷn â pha mor gydnerth a chynaliadwy yw'r Awdurdod. Mae'r adolygiad hefyd yn ystyried effaith COVID-19 a'r risgiau ar gyfer y cyfnod cynllunio adferiad, gan ddarparu sicrwydd i'r Awdurdod ynghylch y risgiau y mae'n eu hwynebu ond i Lywodraeth Cymru hefyd ynghylch yr heriau sy'n wynebu'r sector.

3 Felly, mae'r adolygiad yn sefydlu llinell sylfaen i'w defnyddio wrth werthuso'r Awdurdod o ran y ffordd y mae'n sicrhau ei gydnerthedd tymor canolig. Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw'r awdurdod tân ac achub yn gydnerth ac yn gynaliadwy yn y tymor canolig?

### Yr hyn a ganfuwyd y tro hwn

4 Ar y cyfan, canfuom fod **yr Awdurdod yn gydnerth, ond bod angen iddo wneud penderfyniadau pwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy yn y dyfodol:**

- cyllid – mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau yn dda, ond mae angen mynd i'r afael â risgiau o ran capasiti er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol;
- llywodraethu – mae gan yr Awdurdod systemau llywodraethu priodol ond nid yw gwaith craffu ar benderfyniadau a dwyn swyddogion i gyfrif yn rhoi digon o sicrwydd bob amser bod yr holl risgiau corfforaethol mawr yn derbyn sylw;
- gweithlu – mae gan yr Awdurdod weithlu cydnerth ac mae wedi ymdrin yn dda â heriau uniongyrchol, ond ceir risgiau tymor canolig y mae angen eu rheoli er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gydnerth;
- asedau – mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'r modd y mae'n integreiddio ac yn gwneud y defnydd gorau o asedau, ond mae rhai heriau hirsefydlog y mae angen mynd i'r afael â nhw o ran cydweithredu ar ystadau; a

- pharhad busnes – mae gan yr Awdurdod gynlluniau parhad busnes profedig sydd wedi helpu i gynnal ei gydnerthedd corfforaethol a gweithredol wrth ymateb i'r pandemig.

## Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1 – cynigion ar gyfer gwella.**

Mae'r tabl isod yn rhestru'r cynigion ar gyfer gwella a nodir gennym yn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Gwella rheolaeth gyllidebol o wariant cyfalaf trwy:<br>• adolygu rhaglenni cyfalaf blaenorol i nodi pam na fu'r ddarpariaeth mor effeithiol â phosibl;<br>• cytuno ar gamau gweithredu i wella perfformiad o ran cyflawni'r rhaglen gyfalaf; a<br>• monitro a gwerthuso perfformiad i sicrhau y defnyddir arian cyfalaf yn llawn. |
| C2 | Er mwyn cefnogi cydnerthedd dylai'r Awdurdod:<br>• ganolbwyntio ar nodi a datblygu sgiliau y mae eu hangen er mwyn darparu'r gwasanaethau yn y tymor hirach, yn enwedig ar gyfer staff llyfr gwyrdd heb lifrau;<br>• adolygu lleoliadau gorsafoedd er mwyn nodi cyfleoedd i sicrhau'r trefniadau ymateb brys gorau posibl;<br>• gwerthuso'r adenillion ar fuddsoddiad yn sgil ymgysylltu â phartneriaethau strategol allweddol; a<br>• deall, cytuno a mynd i'r afael â rhwystrau i ragor o gydweithredu strategol â phartneriaid eraill yn y gwasanaethau brys. |

# Adroddiad manwl

## Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi dangos ei gydnerthedd tymor byr, ond mae angen iddo wneud penderfyniadau pwysig er mwyn parhau i fod yn gydnerth yn y dyfodol

### Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau yn dda, ond mae angen mynd i'r afael â risgiau o ran capasiti er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol

#### Pam mae hyn yn bwysig?

5 Nid yw pennu cydnerthedd ariannol yn wyddoniaeth fanwl ond yr hyn a wyddom yw bod angen dull strategol cadarn ar sefydliadau er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae canfyddiadau adolygiad 2019-20 Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol mewn llywodraeth leol yn amlygu gwendidau yn y gwaith cynllunio ariannol tymor canolig.

6 Wrth ddod i'n casgliadau, nodwyd y canlynol:


- mae gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) systemau rheoli ariannol boddhaol ac mae'n gweithio ar wella hanes o danwario cyllidebau cyfalaf.
- dengys **Arddangosyn 2** fod yr Awdurdod yn perfformio'n dda o ran rheoli gwariant o fewn y cyllidebau y mae'n eu pennu.

**Arddangosyn 2 – mae gan yr Awdurdod ragolygon cyllideb cynyddol gywir**

| Blwyddyn | Rhagolwg Cyllidebol (£000) | Yr Alldro ar gyfer y Flwyddyn (£000) | % Tanwariant (-) / Gorwariant (+) |
|---|---:|---:|---:|
| 2017-18 | 70,206 | 70,544 | 0.51 |
| 2018-19 | 71,163 | 70,355 | -1.10 |
| 2019-20 | 71,827 | 71,874 | 0.06 |
| 2020-21 | 74,880 | 74,792 | -0.12 |

- mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod wedi gostwng 47% o £18.7 miliwn yn 2017-18 i £9.8 miliwn yn 2019-20. Fel cyfran o'r gyllideb, roedd y cronfeydd wrth gefn yn 13.1% ar adeg ein hadolygiad.
- mae rhan fwyaf y cronfeydd wrth gefn wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau a gwaith penodol. Mae'r Awdurdod yn cadw cronfeydd arian parod wrth gefn cyffredinol gwerth £3 miliwn, 4% o'r gyllideb net.

**Arddangosyn 3 – mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn wedi gostwng 47% yn ystod y pedair blynedd diwethaf**





- yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r Awdurdod wedi gwario ei holl gyllideb gyfalaf a bu enghreifftiau o danwariant mawr. Rydym yn cydnabod bod rhai o'r rhesymau am hyn y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Er bod y perfformiad hwn yn gwella, mae angen i'r Awdurdod adolygu'r perfformiad presennol a nodi cyfleoedd i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl yn sgil ei fuddsoddiad cyfalaf – **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4 – mae tanwariant y rhaglenni cyfalaf yn sylweddol**

| Blwyddyn | Rhagolwg Cyllidebol (£000) | Yr Alldro ar gyfer y Flwyddyn (£000) | % y tanwariant |
|---|---|---|---|
| 2017-18 | 8,285 | 4,234 | 49% |
| 2018-19 | 8,140 | 4,667 | 43% |
| 2019-20 | 9,707 | 6,638 | 32% |
| 2020-21 | 7,901 | 3,587 | 55% |

- mae ein dadansoddiad a nodir yn **Arddangosyn 5** isod yn dangos bod yr Awdurdod wedi gweld cynnydd o 7% yn ei gyllideb refeniw yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod pob awdurdod tân ac achub wedi gweld gostyngiad yn eu cyllidebau mewn termau real ond yn gyfrannol, nid yw awdurdodau tân ac achub Cymru, ar y cyfan, wedi gweld yr un lefel o doriadau o'u cymharu â'r awdurdodau yn Lloegr. Mae'r awdurdodau tân ac achub a gymharwyd yn gymysgedd o grŵp teulu Chartered Institute of Public and Financial Accountants (CIPFA) 2018-19 ac awdurdodau tân ac achub trefol y gellir eu cymharu.

**Arddangosyn 5 – mae'r cynnydd refeniw yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau tân ac achub eraill**




- mae'r Awdurdod wedi diweddaru ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i gynllun blynyddol. Mae'r Strategaeth tair blynedd wedi'i seilio ar asesiad a dealltwriaeth dda o amgylchedd gweithredu presennol yr Awdurdod, gan gynnwys:
  – cyflog realistig, gwerthuso swyddi, cyfraniad ardollau yn y dyfodol, a thybiaethau pensiwn.
  – trysorlys integredig, cost benthyca, cronfeydd wrth gefn, incwm a chwyddiant.
  – mae costau realistig Brexit, newid hinsawdd, Grenfell, a COVID-19 wedi'u cynnwys.
  – integreiddio tybiaethau cyllidebu, benthyca, cronfeydd wrth gefn, a chostau gweithgareddau Cynllun Strategol 2020-2030.

  - mae COVID-19 a'r pandemig wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid cynlluniau ariannol a diwygio trefniadau llywodraethu.
- adolygir meysydd allweddol y sefydliad yn rheolaidd, ac mae gwybodaeth yn cael ei bwydo i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig er mwyn sicrhau bod cyllidau'n adlewyrchu'r amgylchedd sefydliadol a gweithredol sy'n newid. Mae'r Pwyllgor Cyllid, Asedau a Rheoli Perfformiad yn craffu'n rheolaidd ar risgiau corfforaethol, ardal a swyddogaethol.
- er enghraifft, roedd yr adolygiadau craffu ym mis Hydref 2020 o ran Fflyd a Cherbydau, technoleg gwybodaeth, tybiaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ac effaith y pandemig ar wariant Refeniw a Chyfalaf i gyd yn ddarostyngedig i adolygiad a goruchwyliaeth. Mae'r Archwiliad Mewnol hefyd wedi bod yn weithredol o ran profi systemau ariannol a phrofi seiberddiogelwch.

7 Fodd bynnag, gwnaethom nodi risgiau i gydnerthedd ariannol, gan gynnwys:

- er bod gan yr Awdurdod hanes da o ran rheoli cyllid refeniw, a bydd angen parhau i wneud hynny, bydd angen i'r Awdurdod ystyried ei sefyllfa ariannol yn ofalus, o ystyried yr heriau ariannol tymor hirach ac ansicr y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu a chynllunio ar gyfer amrywiaeth o senarios ar gyfer pethau fel pensiwn, cynllunio olyniaeth ac ystadau.
- mae'n rhaid i'r Awdurdod reoli heriau anodd o ran capasiti. Er enghraifft, mae'r nifer uchel o strategaethau, polisïau a chamau gweithredu'r Cynllun Strategol yn golygu bod gan yr Awdurdod nifer uchel ac anghynaliadwy o flaenoriaethau. Rydym yn gweld wyth thema strategol a 56 o gamau gweithredu strategol yng Nghynllun Strategol 2020-2030 yr Awdurdod, a 10 o bolisïau corfforaethol ar sail 93 o Weithdrefnau Gweithredu. Gall blaenoriaethu llawer o gamau gweithredu a cheisio gwneud gormod arwain yr Awdurdod at golli pwyslais ar ei faterion a'i gyfrifoldebau pwysicaf. Mae'r blaenoriaethau corfforaethol yn cael ei adolygu bellach.
- mae'r adolygiad diwethaf o gyflenwi brys yn 2014 wedi dyddio erbyn hyn ac mae angen i'r Awdurdod ddiweddaru'r gwaith hwn i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o leoliadau gorsafoedd a phatrymau sifft. Yn benodol, mae'n bosibl bod y proffil risg lleol wedi newid yn sgil y pandemig. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod cymaint wedi'i ddysgu a bod llawer iawn o ddata ar gael o'r pandemig.
- mae costau ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, partneriaethau rhanbarthol a'r ddau Fforwm Cydnerthedd Lleol yn mynd yn fwyfwy anghynaliadwy. Mae uwch reolwyr yn amcangyfrif eu bod yn treulio chwarter o'u hamser yn mynd i gyfarfodydd partneriaethau gyda chost o £173,000 mewn amser staff (cyfrifiad Archwilio Cymru).

## Mae gan yr Awdurdod systemau llywodraethu priodol ond nid yw gwaith craffu ar benderfyniadau a dwyn swyddogion i gyfrif bob amser yn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl risgiau corfforaethol mawr yn derbyn sylw

### Pam mae hyn yn bwysig?

8 Dim ond gydag arweiniad cryf, atebolrwydd a strwythur llywodraethu effeithiol y mae'n bosibl creu sefydliad effeithiol a'r diwylliant iawn. Mae corff cyhoeddus cydnerth yn un sydd hefyd yn croesawu deialog agored ac yn defnyddio'i swyddogaeth craffu i ganolbwyntio ar herio swyddogion i helpu i gyflawni'r canlyniad y mae'r sefydliad yn ei ddymuno.

9 Wrth ddod i'n casgliadau, nodwyd y canlynol:

- mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) wedi cadw cydnerthedd corfforaethol a chynnal gwasanaethau ymateb er bod ganddo fwy i'w wneud i fynd i'r afael â materion diwylliannol hirdymor a amlygwyd gan y pandemig. Er enghraifft, wrth sicrhau cymaint o effaith â phosibl o ddulliau craffu ffurfiol.
- mae'r Awdurdod yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau ar faterion ariannol ac yn ymwneud â'r gweithlu a'i nod yw cymryd camau gweithredu i ymdrin â'r gwendidau mewn trefniadau craffu. Adolygwyd trefniadau craffu yn ddiweddar a chyflwynwyd arfarniad opsiynau i'r Aelodau ym mis Medi 2020. O ganlyniad, mae adroddiad diweddaraf yr Awdurdod Tân ar wella trefniadau craffu yn amlygu cylch gorchwyl newydd a chyfethol aelodau annibynnol heb hawliau pleidleisio i'r pwyllgor Craffu pan fo angen sgiliau arbenigol.
- nid yw'r pandemig wedi atal yr Awdurdod rhag craffu a diweddarwyd polisïau Llywodraethu a gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2020.
- mae'r Awdurdod wedi cynnal ei amserlen cyfarfodydd pwyllgor a chynhaliodd ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn rhithwir drwy fideo-gynadledda ym mis Mehefin. Yn ystod y cyfyngiadau symud a chyfnodau ymateb y pandemig, cafodd yr Aelodau ddiweddariadau wythnosol gan uwch reolwyr.
- mae'r awdurdod tân ac achub yn hybu egwyddorion llywodraethu corfforaethol da trwy hyfforddi aelodau, comisiynu polisïau, cynnwys staff ac Aelodau yn y gwaith o ddatblygu gwerthoedd corfforaethol, a diweddaru polisïau yn flynyddol. Mae enghreifftiau o sut y mae'r Awdurdod yn dangos egwyddorion a gwerthoedd llywodraethu corfforaethol da yn cynnwys y ffordd y cafodd cyrff cynrychioli staff eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â chyflog, a'r cynllun prosiect ar gyfer cwblhau'r Gwerthusiad Swydd ar gyfer staff llyfr gwyrdd heb lifrai, ei fuddsoddiadau moesegol sy'n cefnogi cwmnïau lleol, sicrwydd ychwanegol ynghylch cyflenwyr adeiladu.

- bu newid sylweddol yn eglurder ac ansawdd adroddiadau pwyllgor. Mae adroddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad o fis Medi ymlaen wedi eu hysgrifennu'n eglur, gyda data cyfoethog a chynnwys strategol.
- mae COVID-19 wedi cyflymu newid a gwelliannau ym meysydd dirprwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau, technoleg a gweithio ystwyth, cyfarfodydd pwyllgor o bell, a chydweithredu mewnol.
- mae'r Awdurdod yn defnyddio data a gwybodaeth berthnasol a dibynadwy am ei adnoddau i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a rheoli cyllid gan gynnwys:
  – dogfennau pwyllgor â data cyfoethog a gefnogir gan hyfforddiant Aelodau ym maes dadansoddi data.
  – data costau gwasanaethau ymateb a gweithredol mwy cywir.
  – data perfformiad cyngor cyfyngedig.
  – bod yn flaengar gyda mwy o waith ar ddata Tueddiadau'r Dyfodol.
  – Adroddiadau Blynyddol â data cyfoethog ar Iechyd, Diogelwch a Llesiant.
  – adnoddau dynol a phwyllgor cydraddoldeb penodedig ac adroddiadau misol ar lesiant y gweithlu yn ystod y cyfyngiadau symud.
  – y newyddion diweddaraf i aelodau sy'n cynnwys data ar y gweithlu.
- mae'r Awdurdod yn defnyddio ei System Wybodaeth Rheoli Busnes (BMIS) yn effeithiol ac yn integreiddio data cyllid, risgiau, cynllunio gweithlu, data System Cofnodi Digwyddiadau (IRS), a data perfformiad er mwyn rhoi darlun clir a di-oed o berfformiad. Mae'r Awdurdod wedi dangos ei system BMIS i Awdurdodau Tân ac Achub eraill ledled y DU a bu hyn yn gatalydd ar gyfer gwella i eraill. Mae BMIS wedi'i datblygu hefyd trwy gydol y pandemig i roi data amser real i swyddogion i wneud penderfyniadau sy'n allweddol i fusnes ar sail gwybodaeth. Roedd hwn yn cynnwys creu dangosfwrdd ar gyfer y tîm digwyddiadau allweddol a arddangoswyd gan Archwilio Cymru yn eu digwyddiadau diweddar ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil Covid.

10 Er hynny, mae'r risgiau i gydnerthedd corfforaethol yn cynnwys:

- er gwaethaf ansawdd a nifer yr adroddiadau a'r dogfennau pwyllgorau, ynghyd â hyfforddiant a chefnogaeth, nid yw'r craffu mewnol ffurfiol ar benderfyniadau Aelodau bob amser mor effeithiol ag y gallai fod. Ychydig iawn o enghreifftiau a welsom o graffu yn ychwanegu gwerth at benderfyniadau neu berfformiad gweithredu. Er enghraifft, wrth drafod a herio gwybodaeth am berfformiad yn y Cyfarfod Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad (FAPM) ar 28 Ionawr 2019 a 15 Mawrth 2021. Er ein bod yn gallu gweld gwelliant cyffredinol yn y drafodaeth a'r holi gan Aelodau, mae ein hadolygiad o holl gyfarfodydd ar-lein yr Awdurdod Tân a FAPM yn dangos diffygion.

- er gwaetha'r ffaith bod ganddynt Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gadarn ar y cyfan, mae cylch ardoll blynyddol yr awdurdodau lleol yn effeithio ar gywirdeb data rhagolygon. Hefyd, mae'r setliadau grant diogelwch cymunedol blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod yn rhaid i ragolygon cyllideb gael eu seilio ar yr amcangyfrifon gorau. Mae hyn y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod.

## Mae gan yr Awdurdod weithlu cydnerth ac mae wedi ymdrin yn dda â heriau uniongyrchol, ond ceir risgiau tymor canolig y mae angen eu rheoli er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gydnerth

### Pam mae hyn yn bwysig?

11 Wrth wraidd sefydliad cydnerth mae gweithlu cydnerth, yn datblygu timau effeithiol sy'n cynnwys staff cryf eu cymhelliad sy'n gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid. Mae nodweddion gweithlu cydnerth yn cynnwys staff brwdfrydig, egnïol gyda morâl uchel a lefel trosiant staff isel. Gall cyfleoedd i gael hyfforddiant a chamu ymlaen mewn gyrfa a chyflog teg helpu i greu gweithlu mwy cydnerth hefyd. Mae cynllunio a ffurfio'r gweithlu i ateb galwadau presennol ac yn y dyfodol yn bwysig i greu a chynnal cydnerthedd hefyd.

12 Mae Pennod 6 **Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016** yn datgan: 'Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod eu gweithlu yn gallu arallgyfeirio i barhau i ymateb i newid sefydliadol…a sicrhau bod cynlluniau strategol, gwella a gweithredol yn rhoi ystyriaeth lawn i allu'r gweithlu i'w cyflawni.'

13 Wrth ddod i'n casgliadau, nodwyd y canlynol:

- mae'r Awdurdod yn gallu cynllunio, trefnu a datblygu ei weithlu'n effeithiol i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae Strategaeth Pobl yr Awdurdod 2020-30 wedi ei chysylltu'n dda â chynlluniau corfforaethol eraill a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- mae cyfweliadau ac arolygon staff yr Awdurdod wedi canfod diwylliant 'gallu gwneud' cryf o ran datrys problemau a chyfres eglur o werthoedd sefydliadol sydd yn rhan o brif ffrwd gwaith pob dydd yr Awdurdod erbyn hyn.
- mae capasiti sefydliadol wedi cynyddu yn sgil trefniadau llesiant staff effeithiol, gweithgareddau iechyd galwedigaethol effeithiol. Dengys arolygon staff agweddau cadarnhaol tuag at newid a bod 87% o'r gweithlu yn fodlon yn eu swydd, sef y mwyaf a gofnodwyd erioed.
- mae ein cyfweliadau a'n hadolygiadau o ddogfennau wedi canfod pwyslais cryf ar iechyd, diogelwch a llesiant a pholisïau ystyriol. Er enghraifft, mae gan yr Awdurdod gefnogaeth benodol gan seicolegydd a thîm seiciatrig o Ysbyty Athrofaol Caerdydd. Mae gan y gwasanaeth iechyd galwedigaethol

weithwyr proffesiynol iechyd meddwl hyfforddedig a chymwysedig erbyn hyn i roi cymorth.

- mae'r Awdurdod wedi cadw ei achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ac wedi cyflawni gwobr newydd yn canolbwyntio ar les staff. Mae'r Awdurdod wedi derbyn Gwobr Pobl Aur a Gwobr Lles Arian sy'n amlygu diwylliant cefnogol a phwyslais ar les y staff. Mae'r Wobr Pobl yn amlygu yn benodol cynnydd o ran cynllunio gweithlu.
- mae gwerthusiad swyddi staff cymorth a staff llyfr gwyrdd (anweithredol) yn agos at gael ei gwblhau. Dim ond pedwar apêl a ddaeth i law'r Awdurdod ac ychydig iawn o darfu a achoswyd gan y gwaith gwerthuso swyddi ac roedd wedi'i gynllunio'n dda.
- dywedodd y staff yn unfrydol wrthym fod cyfathrebu mewnol yn dda. Mae cyfathrebu wedi ei deilwra i bob swyddogaeth ac mae'r Awdurdod yn gwneud defnydd da o gyfathrebu drwy fideo a chyfryngau cymdeithasol yn fewnol ac yn allanol.
- mae'r Awdurdod yn cynyddu capasiti mewn meysydd allweddol megis dadansoddi data gweithlu, hyfforddi staff, gwirfoddoli, cymorth TGCh, ac iechyd galwedigaethol. Comisiynwyd Rhaglen Cymorth i Weithwyr newydd ac mae uwch reolwyr yn cynnig syniadau newydd ynghyd ag egni ychwanegol.
- mae prosesau recriwtio wedi ymdopi'n dda ac na chafodd y pandemig effaith andwyol arnynt. Cafodd pob swydd wag a hysbysebwyd ei llenwi. Cynhaliwyd dros 80% o ymarferion recriwtio'n rhithwir yn hytrach na chael eu canslo neu eu gohirio. Gweithiodd penodiadau mewnol ar gyfer rheolwyr gwylfa a gorsaf yn dda gyda'r asesiadau ac ymarferion 'byw' yn cael eu cynnal mewn lleoliadau diogel o ran COVID-19 gyda threfniadau cadw pellter cymdeithasol.
- mae'r data diweddaraf ar gyfer 2020-21 yn dangos gostyngiad mawr mewn absenoldeb salwch, sef 95%, a nifer y Sifftiau/Dyddiau a Gollwyd yn gostwng i 16,811 sy'n ostyngiad o 12.1% o'i gymharu â data o 2019-20. Roedd nifer y diffoddwyr tân ar alwad ac ar gael mewn gorsafoedd yr uchaf a gofnodwyd erioed, sef 98% ar gael yn ystod haf 2020 ac ar gyfer y flwyddyn 2020-2021 yn ei chyfanrwydd roedd yn 90.6%.
- mae cynlluniau gwirfoddoli'r Awdurdod yn amlwg yn llwyddiannus. Mae'r Awdurdod yn cael cymorth gwirfoddolwyr mewn amrywiaeth o swyddogaethau i gefnogi mentrau diogelwch cymunedol ac i gefnogi digwyddiadau, ac i helpu gydag ymweliadau Diogel ac Iach. Ceir mwy o amrywiaeth yn nifer cynyddol y gwirfoddolwyr a cheir gwell cynrychiolaeth o'r cymunedau y mae'r Awdurdod yn eu gwasanaethu.

14 Er hynny, mae'r risgiau i gydnerthedd corfforaethol yn cynnwys:

- mae gweithlu'r Awdurdod yn ddigon cydnerth i ymateb i gyfnodau o newid sylweddol ond gallai wneud mwy i sicrhau trefniadau cynllunio olyniaeth didrafferth yn sgil newidiadau i'r rheoliadau a'r canllawiau pensiwn. Adolygir

proffiliau ymddeol a sgiliau yn rheolaidd, yn adrannol ac yn sefydliadol, ond dylid proffilio gwahanol senarios a chytuno ar gyfnodau rhybudd hirach ar gyfer y staff.

- sicrhau cydnerthedd hirdymor y system dyletswydd wrth gefn ar alwad. Pymtheg mlynedd yn ôl, newidiodd yr Awdurdod y ffordd y mae'n talu ei ddiffoddwyr tân ar alwad drwy symud i ffwrdd o system 'talu wrth fynd' i gyflog blynyddol. Fodd bynnag, yn sgil ein cyfweliadau gwelwn fod uwch reolwyr a staff rheng flaen yn cytuno bod angen diwygio a newid y system dyletswydd ar alwad. Yn ogystal â hyn, bydd amrywio swyddogaethau yn unol â fersiwn nesaf Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub a barn bresennol Llywodraeth Cymru yn cael effaith ar y gweithlu yn yr un modd.
- mae uwch reolwyr yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud gyda phartneriaid i ddeall yr effaith gymdeithasol ac economaidd ar bob cymuned yn sgil COVID-19. Gallai hyn gael canlyniadau pellgyrhaeddol o ran problemau iechyd meddwl cudd ac effaith ar dlodi. I gynorthwyo â'r meddylfryd hwn, mae'r Awdurdod yn diweddaru ei adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, fydd yn ystyried sefyllfaoedd yn y dyfodol.

## Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'r modd y mae'n integreiddio ac yn gwneud y defnydd gorau o asedau, ond ceir rhai heriau hirsefydlog o ran cydweithredu ar ystadau

### Pam mae hyn yn bwysig?

15 Ar ôl costau gweithwyr, y gost fwyaf i awdurdodau tân ac achub yw'r hyn y maent yn ei wario ar eu hadeiladau a'u cerbydau. Mae rheoli asedau'n dda yn hanfodol felly er mwyn i Awdurdod Tân ac Achub allu dangos cydnerthedd a'i fod yn darparu gwerth am arian o'r adnodd gwerthfawr hwn. Gall rheoli asedau'n dda sicrhau bod adeiladau yn cefnogi'n llawn y gwasanaethau a ddarperir ohonynt.

16 Wrth ddod i'n casgliadau, nodwyd y canlynol:

- mae'r pandemig wedi helpu i gyflymu gwell defnydd o asedau a galluoedd digidol a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a bod cyfyngiadau wedi cyflymu'r ddarpariaeth o wasanaethau digidol. Er gwaethaf rhywfaint o broblemau cychwynnol, dywedodd uwch reolwyr wrthym eu bod o'r farn bod TGCh wedi camu ymlaen 5 mlynedd. Mae gwelliannau yn cynnwys cynnydd sylweddol yn ansawdd gwefan yr Awdurdod a mynediad at wybodaeth diogelwch cymunedol, ffonau a gliniaduron newydd, cyfleusterau fideo-gynadledda ymhob gorsaf dân a threfniadau gweithio ystwyth ar gyfer staff priodol.
- mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd amlwg o ran rheoli amgylcheddol gan gynnwys:

- Strategaeth Amgylcheddol 2020-30 newydd a llawer gwell wedi ei chysylltu â'r Cynllun Strategol a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a elwodd ar ymgysylltiad staff ac arbenigwyr allanol.
- data llinell sylfaen amgylcheddol mwy cywir gan gynnwys y defnydd o ynni a dŵr.
- gosod systemau rheoli adeiladau o ansawdd uchel ym mhob safle, i gofnodi a monitro'r defnydd o nwy, dŵr a thrydan.
- mae gan bob adeilad rhyw fath o ddyfeisiau ynni deallus erbyn hyn i reoli goleuadau, systemau aerdymheru, a gwres.
- mae trefniadau caffael yn cynnwys y gofyniad i brynu cyfarpar y gellir ei ailgylchu a'i ailddefnyddio yn unig.
- gosod 12 man gwefru cerbydau trydan a seilwaith newydd a fydd yn barod ar gyfer fflyd newydd o gerbydau gwyn a pheiriannau tân tanwydd dwbl erbyn 2030.

- o ganlyniad, gall yr Awdurdod ddangos ei fod wedi cyflawni pob targed amgylcheddol yn 2020-21.
- mae gan yr Awdurdod gynlluniau uchelgeisiol i rannu mwy o'i adeiladu ac agor mwy o le ar gyfer defnydd y cyhoedd. Mae rhannu asedau yn ystyriaeth allweddol yn yr arfarniad opsiynau adeiladau. Mae'r Awdurdod yn rhannu 12 o orsafoedd tân a'i adeilad rheoli tân. Mae'r Awdurdod yn bwriadu ymestyn hyn i ddwy orsaf arall yn 2021-22.

17 Er hynny, mae'r risgiau i gydnerthedd corfforaethol yn cynnwys:

- mae ffordd bell i fynd o hyd yn y gwaith o gynyddu nifer y gorsafoedd tân sydd â chyfleusterau a rennir a rhannu asedau eraill. Mae ein hadolygiad o gynlluniau rheoli asedau partneriaid gwasanaethau brys a'n cyfweliadau â'r Awdurdod yn amlygu rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch diffyg cyfnewidioldeb ar ystadau rhwng partneriaid gwasanaethau brys a chynghorau lleol. Mae gwahanol lefelau o ymrwymiad gan bartneriaid yn effeithio ar y gallu i gyflawni cynlluniau ystadau yr Awdurdod.
- mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall wneud mwy i dynhau rhai agweddau ar ei wasanaethau TGCh, yn enwedig i deilwra hyfforddiant staff ac Aelodau, a diweddaru ei gynllun Adfer ar ôl Trychineb TGCh. Dywedwyd wrthym am yr angen i roi cymorth ychwanegol i reolwyr gwylfa a ddyrchafwyd yn ddiweddar i swyddi rheolwyr gorsafoedd oherwydd lefel y sgiliau TGCh sydd ei hangen.
- pwyso a mesur a gwerthuso effaith cyflwyno trefniadau gweithio ystwyth yn gyflym iawn. Er enghraifft, er bod gan orsafoedd tân gyfleusterau fidoegynadledda â sgriniau mawr, a bod gan staff ffonau clyfar a gliniaduron, mae mwy i'w wneud i sicrhau y gwneir defnydd llawn o'r rhain. Er bod hwn yn newid mewn diwylliant y mae angen dirfawr amdano, mae mwy o waith ar y gweill i sicrhau bod gan yr holl staff gadeiriau a chyfarpar ergonomig mwy addas.

## Mae gan yr Awdurdod gynlluniau parhad busnes profedig sydd wedi helpu i gynnal ei gydnerthedd corfforaethol a gweithredol wrth ymateb i’r pandemig.

### Pam mae hyn yn bwysig?

18 Mae’n ofynnol i Wasanaethau Tân ac Achub fod â threfniadau parhad busnes priodol ar waith, fel y gellir cynnal lefel o ymateb sy’n ofynnol bob amser.

19 Prif egwyddorion parhad busnes yw nodi gweithgareddau hanfodol ac unrhyw fygythiadau iddynt, datblygu cynllun sy’n nodi sut y bydd yr Awdurdod yn cynnal gwasanaethau a hyfforddi staff ac ymarfer cynlluniau, fel y gall yr Awdurdod fod yn ffyddiog y bydd y trefniadau cynllunio yn gweithio. Dylai parhad busnes effeithiol fod yn rhan annatod o sefydliadau fel bod ei gymhwyso yn dod yn reddfol i staff

20 Wrth ddod i’n casgliadau, nodwyd y canlynol:

- mae gan yr Awdurdod gynlluniau parhad busnes effeithiol ar waith a gafodd eu profi’n llawn yn ystod y pandemig ac sydd yn cefnogi cydnerthedd corfforaethol yn ogystal â chydnerthedd gweithredol yn well erbyn hyn.
- mae gwasanaethau statudol wedi’u cynnal ac na wnaeth y pandemig effeithio ar y gwasanaethau ymateb. Yn fwyaf arwyddocaol yw’r ffaith na ddylai’ r cyhoedd fod wedi gweld unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y gwasanaeth wrth ffonio 999 am gymorth.
- mae’r gwaith atal tân a diogelu rhithwir wedi parhau a bod yr Awdurdod wedi rheoli ei atgyfeiriadau a’i raglen arolygu ar gyfer eiddo risg uchel. Ailddechreuodd ymweliadau wyneb yn wyneb ym mis Awst 2020.
- mae cynlluniau parhad busnes wedi’u cysylltu’n dda â chynlluniau gweithredol blynyddol yr Awdurdod: Cynllun Strategol 2020-2030, Cofrestr Risgiau Corfforaethol, Strategaeth Pobl, Fframwaith Rheoli Asedau, Cynllun yr Amgylchedd a Lleihau Carbon, a’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- mae agweddau eraill ar gynllunio parhad busnes a weithiodd yn dda yn cynnwys:
  - addasu strwythurau profedig Celloedd ymateb ac adfer a phrosesau profedig Tîm Digwyddiad Critigol Gwasanaeth Tân ac Achub y DU.
  - roedd cynlluniau parhad busnes blaenorol yn canolbwyntio gormod ar gydnerthedd gweithredol ac maent wedi’u diweddaru erbyn hyn i gynnwys pob swyddogaeth a gwasanaeth corfforaethol.
  - mae cynlluniau parhad busnes profedig wedi bod yn fuddiol i’r Awdurdod wrth ymdrin â’r pandemig. Fe wnaethant fanteisio ar y cyfle yn y cyfnodau tawelach o alw yn ystod y cyfyngiadau symud i gynnal ymarferion mewn lleoliadau risg uchel ledled de Cymru megis y maes awyr, prifysgolion a llosgydd y Barri.
  - mae llesiant staff yn rhan o brif ffrwd Cynllunio Parhad Busnes erbyn hyn.

- mae'r Awdurdod wedi cynnal pwyslais mawr ar gydnerthedd cymunedol yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae gwiriadau diogelwch yn y cartref o bell a chymorth busnes wedi ei deilwra wedi gweithio'n dda ar y cyfan yn ôl dulliau adborth a data arolygon. Mae'r Awdurdod wedi diweddaru cyngor ar atal tân ar ei wefan newydd gan gynnwys diogelwch carbon monocsid a thrais domestig. Mae amrywiaeth gwych o adnoddau addysg yn y cartref wedi cefnogi athrawon a myfyrwyr yn gweithio gartref.

21 Er hynny, mae'r risgiau i gydnerthedd corfforaethol yn cynnwys:

- mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo fwy i'w wneud i leihau nifer y galwadau ffug sy'n cyfrif am 43% o bob gweithgaredd ymateb erbyn hyn. Dyblodd y nifer yn ystod y cyfyngiadau symud yn nau chwarter cyntaf 2020-21. Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn yn ei chyfanrwydd mae'r niferoedd yn cymharu'n fwy ffafriol. Ar gyfer 2019-20 bu 4,494 o Larymau Tân Awtomatig o'i gymharu â 4,440 yn 2020-21 sy'n ostyngiad o 1.2%. Mae hyn yn dal i gynrychioli 43% o holl weithgareddau'r gwasanaeth tân ac achub.
- gwelwn gyfle hefyd i gynnwys pobl iau wrth ddatblygu canllawiau diogelwch tân a diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer oedolion ifanc.

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Methodoleg

Fe wnaethom ofyn:

- a oes gan yr awdurdod tân ac achub systemau rheoli arian cadarn ac effeithiol?
- a oes gan yr awdurdod tân ac achub drefniadau llywodraethu a chraffu addas i sicrhau bod y gwaith o wneud penderfyniadau ar faterion ariannol a'r gweithlu yn effeithiol?
- a yw gweithlu'r awdurdod tân ac achub yn gydnerth i ymateb i gyfnodau o newid sylweddol yn awr ac yn y dyfodol?
- a yw'r awdurdod tân ac achub yn rheoli ei dechnoleg a'i asedau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus i sicrhau eu bod yn parhau'n gynaliadwy yn y tymor hwy?
- a oes gan yr awdurdod tân ac achub gynlluniau parhad busnes effeithiol ar waith sydd wedi'u profi ac sy'n cefnogi cydnerthedd corfforaethol ac sy'n helpu i greu gwasanaethau cynaliadwy?

Gwnaethom gynnal yr adolygiad ym mis Tachwedd 2020. Yr hyn a wnaethom:

- cydgrynhoi ein gwybodaeth a'n profiad archwilio cronnol;
- adolygu papurau pwyllgorau o'r 12 mis diwethaf a data a dogfennau allweddol;
- cynnal adolygiadau o wefan gyfunol yr Awdurdod a'r Gwasanaethau;
- holi 53 aelod o staff gan gynnwys grwpiau ffocws gyda staff rheng flaen, Aelodau, Uwch Dîm Rheoli a'r tîm Cynllunio'r Gweithlu;
- cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'n staff archwilio ariannol a Phrif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru;
- sganio'r gorwel i nodi arferion gorau yn y DU gan gynnwys cyfweliadau ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Swydd Efrog, Awdurdod Tân ac Achub Swydd Bedford, a Brigâd Dân Llundain; a
- rhoi adborth llafar i'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tan ar ddiwedd y gwaith maes.

Canfu ein gwaith archwilio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2018-19 a 2019-20 enghreifftiau o gydweithredu ac ymgysylltu gan nodi hefyd feysydd lle mae angen i'r Awdurdod gryfhau ei waith. Roedd yn glir bod y tri Awdurdod Tân ac Achub yn wynebu heriau corfforaethol sylweddol. Yr hyn a ddywedwyd y tro diwethaf ynghylch cydnerthedd corfforaethol:

- Gwaith Treialu Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Mai 2018: Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi dangos ymrwymiad cryf i gydweithredu â phartneriaid. Er hynny, mae her arbennig i'r Awdurdod wrth ystyried sut y mae'n ymateb yn strategol i naw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- cydweithredu ar ymweliadau Diogel ac Iach ac adroddiad ar gynnau tân yn fwriadol Ebrill 2019: Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau cadarnhaol o sut y mae wedi

ystyried yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni amcanion, ond mae angen mwy o waith i ehangu a phrif ffrydio'r ffordd y mae'n cyflawni'r pum ffordd o weithio.

- adolygiad o ymgysylltiad Mai 2020: Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad bod gan yr Awdurdod ymagwedd dda yn gyffredinol tuag at ymgysylltu â phartneriaid a chymunedau, ond bod angen iddo wella ei effaith drwy werthuso dulliau gweithredu presennol i gryfhau gweithgareddau yn y dyfodol

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.